Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL DROS DRO AHNE BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

## COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR YMGYNGHORI
**a gynhaliwyd am 10:00am dydd Gwener 5 Rhagfyr 2014 ym Mharc Gwledig Loggerheads**

**Cynrychiolwyr AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**
Mr H Sutcliffe (Swyddog AHNE)
Mr D Shiel (Uwch Swyddog AHNE)
Mr T Hughes (Swyddog Cynllunio AHNE)
Ms K Holthofer (Swyddog Cyfathrebu'r AHNE)
Mrs H Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden)

**Cynrychiolwyr Cyngor Sir y Fflint**

Y Cynghorydd C Thomas (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Colin Legg
Y Cynghorydd N Steele Mortimer
Y Cynghorydd N Matthews
Mr T Woodall

**Cynrychiolydd Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorydd M Holland

**Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
Y Cynghorydd Hugh Jones

**Cynrychiolydd Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint**
Mr D Hÿtch

**Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mr P Mitchell

**Cynrychiolydd Fforwm Mynediad Lleol Sir Ddinbych**
Mrs K Culhane

**Cynrychiolydd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad**
Mrs S Archdale

**Cynrychiolydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**
Mr T King

**Cynrychiolydd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig**

Mr M Skuse

**Cynrychiolydd Cymdeithas y Cerddwyr**
Mr J Roberts

**Cynrychiolydd Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru**
Mrs H Williams

**Cynrychiolydd Un Llais Cymru (Sir y Fflint)**
Mr J Emyr Davies

**Cynrychiolydd Twristiaeth**
Mrs J Clough

**Cynrychiolydd Un Llais Cymru (Sir Ddinbych)**

Mr M Davies

**Cynrychiolydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr**
Mr RH Jones

**CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN**
Y Cynghr. Huw L Jones, M Pritchard, N Matthews.

**CROESO/NEWYDDION AHNE**
Croesawodd Swyddog yr AHNE yr aelodau i gyfarfod olaf y Cydbwyllgor Ymgynghorol cyn galw Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Diolchodd Swyddog yr AHNE yr aelodau am eu brwdfrydedd a'u hymroddiad i'r AHNE dros y blynyddoedd. Dywedodd y byddai'r ffurflenni cais i ymuno â'r bartneriaeth yn cael eu dosbarthu cyn y Nadolig.

**1. YMGYNGHORIADAU BRYS**

Dywedodd y Swyddog Cynllunio nad oedd unrhyw ymgynghoriad brys i'w ystyried.

**2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

**<u>Cyfarfod Is-Bwyllgor CBYD a gynhaliwyd ar 12 Medi 2014</u>**

2.1 <u>Eitem u</u>

**Manylion y cynllun adfer a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 34 o ganiatâd cynllunio 21/1999/0783/PF yn Chwarel Aberduna, Maeshafn, Yr Wyddgrug, CH7 5EN - 21/2013/1388**

Dywedodd y Swyddog Cynllunio bod yr awdurdod cynllunio mwynau yn fodlon i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ymweld â'r safle i weld y gwaith atgyweirio yn Aberduna yng ngwanwyn 2015 pan fydd y gwaith plannu wedi ei orffen. Bydd cyfarfod cyntaf Partneriaeth yr AHNE ddydd Gwener 27 Mawrth 2015 ac awgrymwyd y gellid ymweld â'r safle ar ôl y cyfarfod.

Holodd aelod ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal a chadw'r ffens ddiogelwch o amgylch y gwagle chwarel pan fydd rhwymedigaethau Hanson yn dod i ben. Cytunodd Swyddog Cynllunio'r AHNE i gyfeirio'r ymholiad hwn at yr awdurdod cynllunio mwynau ac y byddai'n adrodd yn ôl.

**PENDERFYNWYD**
Trefnu ymweliad safle ar ôl cyfarfod y bartneriaeth ar 27 Mawrth 2015 os yn bosibl, a Swyddog Cynllunio'r AHNE i gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Mwynau i geisio eglurhad ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y ffens o amgylch y gwagle chwarel yn y tymor hir.

2.3 <u>Eitem 1,3,4,5</u>

**<u>Datblygiadau yn Big Covert</u>**
Rhoddodd y Cynghorydd Holland ddiweddariad byr ar lafar ynglŷn â gwerthu lleiniau coetir yn Big Covert, gan amlygu gweithgareddau a datblygiadau pellach y tu allan i'r hyn a ganiateir. Mae Swyddogion Gorfodi wedi cael gwybod am hyn ac mae Darren Millar AC wedi cymryd diddordeb gweithredol yn y mater. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi sefydlu Tîm Gorfodaeth i edrych ar y mater yn fanylach.

**<u>Gwahodd Gweinidogion Cymru i fynychu cyfarfod y Cydbwyllgor Ymgynghorol</u>**
Dywedodd y Cadeirydd fod llythyr wedi ei anfon at Carl Sergeant Gweinidog Cymru yn ei wahodd i fynychu cyfarfod o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol. Yn anffodus, mae gan y Gweinidog ormod o ymrwymiadau eraill i fynychu cyfarfod.

2.5 <u>Eitem 12</u>

**Ailosod gwifrau uwchben 11kv gan ddefnyddio dargludyddion ychwanegol a chodi gwifrau uwchben 11kv a gefnogir gan bolion pren ym Marian Mawr, Cwm, y Rhyl**

Dywedodd Swyddog yr AHNE bod cyfarfod llwyddiannus wedi ei gynnal gyda'r tirfeddiannwr a'u bod wedi cytuno ar gyfaddawd. Bydd y clawdd yn cael ei adfer, Hawliau Tramwy yn cael eu gwella a bydd man gwylio ychwanegol yn cael ei ddarparu.

8. **<u>Cig Oen Bryniau Clwyd</u>**

Dywedodd Uwch Swyddog yr AHNE bod y prosiect wedi cael digwyddiad lansio llwyddiannus yn Tweedmill, Llanelwy gyda nifer o ffermwyr defaid ac aelodau o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn bresennol.

8.1 **<u>Cais Cronfa Dreftadaeth y Loteri – Prosiect Tirlunio</u>**

Dywedodd Uwch Swyddog yr AHNE nad oedd yr un cais o Gymru wedi bod yn llwyddiannus y tro hwn. Fodd bynnag, byddai'r AHNE yn cyflwyno cais arall ym mis Mai 2015.

10. **YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO**

**Gosod tyrbin gwynt 30.5m uchder both ac 45.07m i flaen y llafn, bocs rheoli a gwaith cysylltiedig ym Maes Truan, Llanelidan, Rhuthun, LL15 2RN - 19/2014/0702**

Dywedodd Swyddog Cynllunio'r AHNE bod caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer y datblygiad hwn yn erbyn argymhelliad y swyddog.

11. **YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO**

**Tyrbin gwynt unigol ag iddi uchafswm uchder i flaen y llafn o 86.5m a datblygiad ategol, gan gynnwys pad wyneb caled i graen, is-orsaf, cabinet dal offer a ffordd fynediad yn Fferm Lygan Uchaf, Ffordd y Wern, Rhosesmor, Yr Wyddgrug, CH7 6PY - 052344**

Cyfeiriodd Mrs Archdale at y cais a gofynnodd a oedd trigolion Penbedw wedi eu cysylltu â hwy cyn y cyfeiriwyd at y 'Parc a'r Ardd Hanesyddol' yn yr ymateb. Dywedodd Swyddog Cynllunio'r AHNE bod yr ymateb a argymhellwyd wedi ei drafod yn y cyfarfod blaenorol ac wedi ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol. Mae'r cyfeiriad at yr effaith ar 'Barc a Gardd Hanesyddol' Penbedw yn ymateb i wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd a oedd wedi ei gyflwyno gyda'r cais cynllunio.

Dywedodd Swyddog yr AHNE bod y Swyddog Cynllunio ond yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos. Does ganddo ddim llawer o amser i gysylltu ag ymgeiswyr a phartïon eraill â diddordeb o fewn y raddfa amser sydd ar gael i ymateb i ymgynghoriadau. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr neu bartïon â diddordeb gysylltu â Thîm yr AHNE os oes arnynt angen cyngor ar geisiadau.

***Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.***

## 3. YMGYNGHORIADAU WEDI EU DIRPRWYO

3.1 **EITEM 35**

**Newid defnydd gwesty (Dosbarth C1) i annedd breifat (Dosbarth C3) a gwneud newidiadau a dymchwel rhai darnau, ynghyd â gwaith cysylltiedig yn Bodidris Hall, Llandegla, Wrecsam, LL11 3AL - 17/2014/1114**

Mynegodd Mrs Clough rai pryderon ynghylch colli llety gwesty o ansawdd o fewn yr AHNE. Cytunodd y Swyddog Cynllunio bod hyn yn anffodus ond roedd y gwesty wedi bod ar gau ers peth amser a ddim yn gynaliadwy. Mae angen buddsoddiad sylweddol i sicrhau dyfodol yr adeilad rhestredig pwysig yma (sydd mewn cyflwr gwael), ac mae cais i droi adeiladau allanol i greu hyd at wyth uned gwyliau wedi ei gyflwyno a fyddai'n gwneud rhywfaint o iawn am golli'r gwesty.

Dywedwyd hefyd bod y safle yn ffinio llwybr cyhoeddus sy'n cael ei hyrwyddo fel llwybr hamdden, a phwysleisiodd yr aelodau bod angen sicrhau llwybr ymarferol a diogel ar gyfer defnyddwyr yn ystod y gwaith adeiladu.

3.2 **EITEM 56**

**Codi storfa offer pren a lloches ar gyfer rheoli'r coetir (cais ôl-weithredol) - cynlluniau diwygiedig yn Big Covert, Coedwig Clwyd, Maeshafn, Yr Wyddgrug - 21/2014/0032**

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y cais a gofynnwyd a oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (sydd â chyfamodau ar y coetir) wedi eu hymgynghori â hwy ynghylch y cais. Cytunodd Swyddog yr AHNE i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Dywedodd Mr P Mitchell ei fod wedi codi'r mater yn fewnol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Cytunodd yr Aelodau bod angen ymateb gan Lywodraeth Cymru er mwyn i'r polisi gael ei newid a'i ddatrys a'i gyflwyno i Darren Millar AC.

**PENDERFYNWYD**

Cysylltu â Darren Millar AC a'i wahodd i gyfarfod ag aelodau.
Swyddog yr AHNE i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

3.3 **YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO**

**Gosod tyrbin gwynt 6kw (9 metr o uchder, 11.8 metr o uchder gyda'r llafn) yn Y Lletty, Pen Line, Cilcain, Yr Wyddgrug, CH7 5NZ**

Cyfeiriodd Mrs Archdale at y cais uchod a holodd pam nad oedd y cais wedi ei gyhoeddi gyda dogfennau ategol y Cydbwyllgor Ymgynghorol. Dywedodd Swyddog Cynllunio'r AHNE fod yr ymateb wedi ei anfon ar ôl cyhoeddi papurau'r cyfarfod. Cytunodd y Swyddog Cyfathrebu i gylchredeg yr ymateb i'r aelodau, sydd fel a ganlyn:

**"Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn nodi bod y cais hwn fwy neu lai yr un fath â'r hyn a wrthodwyd yn gynharach eleni (Cod Rhif: 051227). Mae'r safle ar fryn agored yn yr AHNE sy'n weladwy ar draws ardal eang, gan gynnwys rhwydwaith o lwybrau cerdded. Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn derbyn dadl yr ymgeisydd o blaid defnyddio ynni gwynt yn hytrach na phaneli solar, ac yn nodi bod y tyrbin arfaethedig yn gymedrol o ran maint (11.8 metr i flaen y llafn). Deallir hefyd, gan gydnabod y byddai peth effaith weledol andwyol, nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y niwed yn ddigon difrifol i wrthod y cais.**

**Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn dal yn credu bod hwn yn safle sensitif ac yn ffafrio gosod y tyrbin mewn lle llai amlwg, o bosibl yn nes at yr adeiladau fferm neu yn yr ardal amgaeedig i'r de-ddwyrain o'r fferm sy'n llai agored ac yn cael ei chuddio gan wrychoedd, coed a choetiroedd bychain a fyddai'n tynnu'r llygad oddi ar y tyrbin. Nodir bod angen cyflymder gwynt o 5 metr yr eiliad i wneud y tyrbin yn hyfyw, ond nid oes manylion ynghylch cyflymder y gwynt ar y fferm wedi eu cyflwyno gyda'r cais a fyddai'n gymorth mawr i ddewis y safle mwyaf priodol ar gyfer y tyrbin.**

**Os yw'r awdurdod cynllunio yn fodlon nad oes lleoliad gwell gyda'r cyflymder gwynt angenrheidiol, mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn awgrymu gosod y tyrbin tua 30-40 metr i'r de/de-ddwyrain o'r lleoliad arfaethedig er mwyn lleihau'r effaith ar y nenlinell o'r rhwydwaith llwybrau cerdded cyfagos. Dylai lliw'r mast a'r tyrbin gydweddu â'r bryn, a dylid plannu eithin brodorol o amgylch y tyrbin i helpu i leihau'r effaith ar y dirwedd agored ac i integreiddio'r tyrbin yn ei leoliad gwledig. Byddai'r Cydbwyllgor Ymgynghorol hefyd yn argymell bod yn rhaid rhoi'r cysylltiad grid dan ddaear." (Polisïau Cynllun Rheoli AHNE PCP1, PCP2, PSQ1 a PSQ2)**

**4.** **Cyfarfod Cydbwyllgor yr AHNE 14/11/2014**

Rhoddodd Swyddog yr AHNE ddiweddariad llafar ar gyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor.
Presennol:-

Y Cynghorydd Hugh Jones
Y Cynghorydd Hugh L Jones
Y Cynghorydd Hugh Jones
Y Cynghorydd Ian Roberts
Y Cynghorydd Derek Butler

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Bernie Attridge.
Penodwyd y Cynghorydd Hugh Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorydd Huw L Jones yn Is-gadeirydd.
Dywedodd y Cynghorydd Hugh Jones bod y Cydbwyllgor yn bwyllgor strategol a bod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i symud ymlaen.

4.1 **<u>Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy</u>**
Yn y cyfarfod cymeradwyodd y Cydbwyllgor ffurfio Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Felly, y cyfarfod heddiw yw cyfarfod olaf y Cydbwyllgor Ymgynghorol. Mae'r trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y Bartneriaeth yn ffurfio rhan o'r cytundeb cyfreithiol newydd. Mae ffurflenni cais, cytundeb a rôl y Bartneriaeth yn cael eu cwblhau. Bydd hysbyseb am aelodau i ymuno â'r Bartneriaeth yn cael ei rhoi yn y papurau newydd lleol cyn y Nadolig. Bydd pob aelod o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn cael eu gwahodd i wneud cais, ynghyd â sefydliadau ac unigolion sydd wedi mynegi diddordeb. Ailadroddodd Swyddog yr AHNE nad oedd gan y Bartneriaeth y gallu i gael cynrychiolaeth o bob sefydliad gan ei fod bellach yn cwmpasu ardal llawer mwy.

## 5. ADOLYGU CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd Cynllun Rheoli'r AHNE gan yr Uwch Swyddog (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ac eglurodd y bydd rhywfaint o'r adborth o'r gweithdai a gynhaliwyd y llynedd yn cael ei gynnwys ym mholisïau ac amcanion y Cynllun.

**<u>Y Cynllun Gweithredu</u>**
Bydd amcanion y Cynllun yn cael eu cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth.

5.1 Holodd aelod pam bod cyfeiriad estynedig at 'Mynediad a Hamdden' o fewn y Cynllun. Eglurodd Uwch Swyddog yr AHNE bod Mynediad a Hamdden wastad wedi bod yn rhan allweddol o'r Cynllun Rheoli. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad wedi ei estyn yn y cynllun presennol i ddarparu ar gyfer yr ardal ehangach. Eglurwyd mai un o'r pwysau mwyaf ar dirweddau gwarchodedig yw hamdden. Dylai pawb allu cael mynediad a mwynhau'r AHNE ond gydag ystyriaeth ddyledus i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Mae Strategaeth Estyn Allan hefyd yn cael ei chynhyrchu i helpu i dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a Grwpiau Cymunedau yn Gyntaf ac i wella eu mynediad i'r AHNE.

5.2 Tudalen 16
**IVCO1. - Sicrhau bod ymwelwyr a'r diwydiant twristiaeth yn cefnogi ac yn deall yr angen am gadw a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE fel asedau allweddol sy'n sylfaen ar gyfer twristiaeth.**

Cyfeiriodd Mrs Clough at yr amcan uchod a dywedodd y gallai Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd gynorthwyo i gyflawni hyn.

5.3 Cafwyd trafodaeth ynghylch a oedd gormod o bwysau ar ardaloedd eiconig yr AHNE oherwydd materion mynediad a pharcio ac a ddylid rhoi mwy o bwyslais ar ardaloedd eraill/ardaloedd mwy anghysbell i helpu i wasgaru ymwelwyr. Eglurodd Uwch Swyddog yr AHNE bod nifer yr ymwelwyr yn cynyddu ac y gallai hynny achosi rhai problemau ond roedd yr un mor bwysig bod llonyddwch a phellenigrwydd yr AHNE yn cael ei gadw. Mae Tîm yr

AHNE yn ymdrechu i greu cydbwysedd gydag ymwelwyr a chymunedau i fwynhau'r AHNE a'i nodweddion amrywiol.

**6. Gwobr yr AHNE 2014**

Rhoddodd Uwch Swyddog yr AHNE ddiweddariad llafar ar wobr yr AHNE ar gyfer 2014 ac eglurodd bod saith o enwebiadau wedi dod i law (a gylchredwyd eisoes). Dywedwyd mai enillydd gwobr 2014 oedd Richard Jones - Sgiliau Cefn Gwlad.

Dywedodd Swyddog yr AHNE eu bod yn cysylltu â Richard Jones pan fo angen rhywbeth arbennig ar yr AHNE. Mae Richard wedi cwblhau llawer o waith ar gyfer yr AHNE, gan gynnwys y maes parcio ym Mwlch Pen Barras sydd wedi ei ganmol yn fawr. Mae Richard hefyd wedi darparu cyfleoedd gwaith da i unigolion sydd eisiau dilyn gyrfa o fewn cefn gwlad. Bydd y wobr yn cael ei chyflwyno i Richard a'i dîm ym mis Mawrth 2015.

6.1 **Arian y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Diolchodd y Cynghorydd Holland i Swyddog y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, Nick Critchely, am y gwaith sydd wedi ei wneud i waliau yn Llanarmon-yn-iâl. Cwblhawyd y gwaith gyda chyllid Cronfa Datblygu Cynaliadwy, Cadwyn Clwyd a chyfraniadau lleol.

**7. ADOLYGIAD LLYWODRAETHU CYMRU O DIRWEDDAU DYNODEDIG YNG NGHYMRU**

Cyflwynodd Swyddog yr AHNE yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) ynghylch yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru ac esboniodd fod yr adolygiad wedi dechrau edrych ar y ddwy agwedd gyntaf:-

1. **Beth oedd dibenion Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol**
2. **A oes modd cael dynodiad tirwedd unigol**

Aeth Swyddog yr AHNE yn ei flaen i esbonio bod yr adolygiad hefyd yn ymwneud â llywodraethu. Mae gan Barciau Cenedlaethol eu hawdurdod lleol a'u cyllideb eu hunain. Dywedodd Swyddog yr AHNE bod gan yr AHNE drefnau llywodraethu priodol: y Cydbwyllgor a Phartneriaeth yr AHNE.
Cafwyd trafodaeth ynghylch hyn ac roedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn cytuno bod gan frand Parc Cenedlaethol broffil uwch nag AHNE. Codwyd rhai pryderon ynghylch y goblygiadau a allai ddod yn sgil unrhyw newid brand e.e. cyfyngiadau cynllunio. Holodd yr aelodau hefyd a fyddai cyllid yn fwy diogel ar gyfer yr AHNE os yw'n derbyn statws Parc Cenedlaethol.
Dywedwyd bod yr NAAONB wedi ymateb ar ran yr holl Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**8. SEMINAR AELODAU'R AHNE - Plas Tan y Bwlch**

Gofynnodd Swyddog yr AHNE a fyddai unrhyw aelodau yn hoffi mynychu'r seminar ym **Mhlas Tan y Bwlch ar 26 a 27 Ionawr 2015.**
Mae lle i ddau.

**9. YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO LLYWODRAETH CYMRU**

Cyflwynodd Swyddog Cynllunio'r AHNE yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn ymwneud â saith o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chynllunio a chynghorodd yr aelodau i ystyried eu hymateb o safbwynt yr AHNE. Cafwyd trafodaeth ynghylch hyn ac roedd y rhan fwyaf o'r aelodau yn cytuno y byddai'n golled fawr i'r AHNE os yw'r Datganiad Dylunio a Mynediad yn cael ei ddileu. Cytunodd yr Aelodau y dylid darparu hysbysiad cyn cyflwyno cais i Bartneriaeth yr AHNE. Holwyd a fyddai cynnydd yn y ffioedd ar

gyfer ceisiadau ôl-weithredol. Cytunodd yr Aelodau i gyflwyno'r ymatebion a argymhellir mewn perthynas â thri o'r dogfennau ymgynghori.

**PENDERFYNWYD**

**Ymgynghoriad ar Ddylunio yn y Broses Gynllunio**

**"Mae dylunio da yn hanfodol i ddarparu datblygiad yn llwyddiannus ar dirweddau gwarchodedig neu o fewn tirweddau o'r fath heb danseilio neu niweidio'r rhinweddau a'r nodweddion sy'n eu gwneud yn lleoedd arbennig. Gall dylunio da hefyd wella cymeriad ac ymddangosiad ardaloedd o'r fath. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn croesawu'r pwyslais ar ddylunio da mewn polisïau cenedlaethol a lleol ac yn cefnogi'r amcan i godi safonau dylunio drwy'r broses gynllunio a mesurau eraill.**

**Fodd bynnag, mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn bryderus iawn ynghylch y cynnig i ddileu'r angen i ddatblygwyr gyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad ar gyfer pob cais. Mewn ardaloedd sensitif fel AHNE mae'r angen i ystyried dyluniad a chyd-destun y cynnig mewn perthynas â'i leoliad yn ystyriaeth hanfodol sy'n aml yn cael ei hesgeuluso, ac mae'r gofyniad ffurfiol i ystyried materion o'r fath drwy Ddatganiad Dylunio a Mynediad yn gam pwysig i sicrhau dyluniad da. Yn y cyd-destun hwn mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol hefyd yn nodi nad yw llawer o geisiadau yn cael eu cyflwyno gan ddylunwyr proffesiynol. Tra bod lle i addasu'r categorïau a'r trothwyon sy'n gysylltiedig â'r gofyniad i gyflwyno datganiad dylunio o'r fath, mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn credu'n gryf y dylid cadw'r angen am ddatganiad ffurfiol ar gyfer ardaloedd sensitif, gan gynnwys AHNE. Dylai'r eithriad a ddefnyddir yn gyffredin mewn deddfwriaeth cynllunio sy'n ymwneud ag Erthygl 1(5) Tir a Safleoedd Treftadaeth y Byd gael ei gymhwyso yn hyn o beth." (Cwestiynau 13 a 14)**

**Dechrau dwys gyda'r system rheoli datblygu**

**"Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn cefnogi'r egwyddor y dylai datblygwyr ymgynghori â'r gymuned cyn cyflwyno cais ar gyfer datblygiadau mawr, ac yn cytuno y dylai hyn godi materion cynllunio sylweddol fel y gall datblygwyr ymateb iddynt cyn cyflwyno eu cais. Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn nodi bod y lleiafswm gofynion cyhoeddusrwydd arfaethedig yn cynnwys rhybuddion safle a llythyrau at gymdogion, aelodau ward lleol a chynghorau tref a chymuned. Fodd bynnag, mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn ystyried ei hun yn rhan o'r gymuned ac yn gallu codi materion cynllunio sylweddol i ddatblygwyr eu hystyried. Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol felly'n awgrymu y byddai hysbysiad cyn cyflwyno cais i'r Cydbwyllgor/Partneriaeth yr AHNE fel rhan o'r broses hon yn fuddiol."**

**Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a byrddau cynllunio ar y cyd**

**"Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn cefnogi'r rhan honno o Brotocol Pwyllgor Cynllunio Cenedlaethol (na fydd yn ffurfio rhan o'r cynigion deddfwriaethol) sy'n ymwneud â hyfforddiant gorfodol i aelodau. Mae osgoi ymdrech diangen a dyblygu drwy baratoi set genedlaethol o ddeunyddiau hyfforddi yn ddull synhwyrol. Er nad yw manylion deunyddiau a thestunau'r hyfforddiant wedi eu nodi eto, mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn argymell yn gryf y dylai awdurdodau cynllunio lleol sydd â thirweddau a ddiogelir yn genedlaethol (Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol) dderbyn hyfforddiant penodol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer cadwraeth a gwella tirweddau dynodedig."**

## 10. UNRHYW FATER ARALL

10.1 **Ffatri Dobson & Crowther, Cilmedw, Llangollen**

Dywedodd Swyddog Cynllunio'r AHNE bod Mr Simon Collinge wedi anfon llythyr (a gylchredwyd yn flaenorol) at y Cadeirydd a'r Cydbwyllgor Ymgynghorol. Mae Mr Collinge wedi mynegi pryder bod lliw cladin wal y ffatri a godwyd yn ddiweddar yn rhy olau a bod yr adeilad yn weledol ymwthiol yn yr AHNE. Roedd Mr Collinge hefyd yn pryderu ynghylch torri coed a oedd yn helpu i guddio'r safle.

Roedd yr aelodau yn cydymdeimlo â'r farn a fynegwyd ond cytunwyd na fyddai'r datblygwr yn newid lliw'r cladin (a gymeradwywyd) yn hwyr yn y datblygiad. Roedd yr Aelodau yn siomedig iawn bod y Cydbwyllgor Ymgynghorol wedi codi'r pryderon hyn a'r Awdurdod Cynllunio wedi dewis peidio â gweithredu ar awgrym y Pwyllgor h.y. i weld sampl o'r paneli sampl. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bryderus iawn ynghylch torri coed ac wedi cysylltu â'r awdurdod cynllunio i geisio'r lefelau uchaf o liniaru i wneud iawn am eu torri.

Anfonwyd y llythyr canlynol gan y Cadeirydd at Mr Collinge ar ôl y cyfarfod:

***Dear Mr Collinge***

***As requested, I reported your letter to the meeting of the Interim Joint Advisory Committee (IJAC) for the Clwydian Range and Dee Valley AONB held on 5 December, 2014. Copies of your letter and the photographs you sent were circulated to all members prior to the meeting.***

***The IJAC are very disappointed that the planning authority chose not to act on the committee's suggestion that sample panels be erected on site to help select the colour of the cladding, and agree with you that a darker, more recessive colour would help better integrate the new factory into its rural setting. However, members accepted that the planning authority had issued an approval for the cladding as constructed and regretted that there was little that can be done at this stage to overturn a legitimately made decision. The committee did however ask for their concerns to be brought to the attention of the planning authority, hence me copying in Ian Weaver.***

***Members also share your deep concern about the loss of mature trees along the A5 which were to be protected and retained as part of the development. These helped screen the site and reduce its impact in the landscape, and their felling has resulted in the development appearing starker than it would otherwise. When they were felled I personally approached the planning authority to express my concerns and to seek as much mitigation as possible from the developers to compensate for their loss. The committee appreciates that it is difficult to fully compensate for the loss of such mature trees in the short term, but understands that the planning authority has reached agreement with the developers to secure additional planting in mitigation which, in time, will help break up views of the building.***

**Yours sincerely,**

**Cllr Carolyn Thomas**
**Chair of the Clwydian Range and Dee Valley AONB Interim Joint Advisory Committee**

10.2 **Fferm Wynt Mynydd Mynyllod**

Dywedodd y Swyddog Cynllunio bod cynnig Scottish Power Renewables ar gyfer hyd at 25 o dyrbinau gydag uchder o 110-160 metr ym Mynydd Mynyllod ger Llandrillo wedi ei dynnu'n ôl oherwydd effaith gweledol y cysylltiad grid angenrheidiol ar y dirwedd.

10.3 **Fferm Wynt ar y Môr Rhiannon**

Dywedodd y Swyddog Cynllunio bod cynnig Celtic Array ar gyfer 250+ o dyrbinau 265 metr o uchder ym Môr Iwerddon hefyd wedi ei dynnu'n ôl. Y prif resymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig oedd amodau heriol dan y môr a chostau cysylltiedig.

10.4 **Swyddog Cynllunio'r AHNE**

Diolchodd y Cynghorydd Hugh Jones i Swyddog Cynllunio'r AHNE a'i ganmol am ei effeithlonrwydd. Dywedodd fod y Swyddog Cynllunio, sy'n gweithio'n rhan amser (deuddydd yr wythnos), wedi ymateb i 62 o geisiadau ers y cyfarfod diwethaf.

10.5 **Neges gan y Cadeirydd**

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau am eu cyfraniad i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol a dywedodd ei bod wedi mwynhau cadeirio'r cyfarfodydd ac ymestyn ei gwybodaeth am yr AHNE. Roedd hi wedi ceisio hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r ardal ar bob cyfle posibl.

10.6 **Swyddog yr AHNE**

Diolchodd y Cynghorydd Nancy Matthews i Swyddog yr AHNE am friffio'r aelodau i ymestyn eu gwybodaeth am yr AHNE ac am eu croesawu ar y pwyllgor.

**11. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Cyfarfod cyntaf Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

**Dydd Gwener 27 Mawrth 2015**